WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr S Phillips,
Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,
Canolfan Dinesig,
Port Talbot.
SA13 1PJ

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 14 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | **464A2012** |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | |
| **E-bost** | |
| **Tudalennau** | **1** o **6** |

Annwyl Steve,

**Asesiad Gwella**

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar unrhyw newidiadau sylweddol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor a sut mae'n mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn cyflwyno crynodeb pellach erbyn diwedd Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi pennu amcanion gwella ar gyfer 2012-13

Yn ddiweddar, cynhaliais archwiliad o'r Cynllun Gwella a deuthum i'r casgliad ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r amserlenni cyhoeddi a nodwyd a'i fod yn cynnwys yr hyn sy'n ofynnol ac a argymhellir.

Ni fu newid yng ngweinyddiaeth y Cyngor yn dilyn etholiadau mis Mai. Cynyddodd mwyafrif y Blaid Lafur ac o ganlyniad i hynny penderfynodd y Cyngor ailddatgan ei amcanion ar gyfer 2012-13. Mae wedi cysoni ei ymrwymiadau etholiadol newydd â gwaith cynllunio ariannol a gwaith cynllunio gwasanaethau er mwyn sefydlu cyfres newydd o flaenoriaethau ac amcanion ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2017.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

**Ni fu newid yn strwythurau'r Cabinet na'r Pwyllgor Craffu ond bu newidiadau sylweddol o ran uwch benodiadau ac mae'r Cyngor newydd wedi gweithredu'n gyflym i glustnodi'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn.**

Ni fu newid yn strwythurau'r Cabinet na'r Pwyllgor Craffu. Mae gan y Cyngor naw aelod Cabinet â phortffolios gwasanaeth penodol a phum Bwrdd Cabinet, ac mae saith Amcan Gwella'r Cyngor yn cyd-fynd yn agos â strwythur y Cabinet a'r Byrddau Cabinet, er enghraifft, 'Gwella Addysg' a 'Gwella Gwasanaethau i Bobl Hŷn'.

Gwnaed newidiadau sylweddol i uwch benodiadau sy'n golygu bod y Cabinet yn cynnwys cymysgedd o gynghorwyr newydd a phrofiadol ac maent i gyd wedi'u penodi i rolau newydd ac eithrio dau, sef Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden, a Gwasanaethau Gofal Strydoedd a Phriffyrdd. Mae'r Cyngor newydd wedi gweithredu'n gyflym i glustnodi'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn a oedd ar waith yn fuan ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2012.

Ceir pum pwyllgor craffu sydd â'r un strwythur â'r Cabinet. Fel rhan o astudiaeth o drefniadau craffu ledled Cymru, byddaf yn gwahodd aelodau a swyddogion i gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau dysgu yn ddiweddarach eleni.

Sefydlwyd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, a'r canllawiau statudol cysylltiedig, sy'n nodi nifer o swyddogaethau gorfodol i'w cyflawni.

**Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol**

Yn fy Llythyr Asesu Corfforaethol a'm Hadroddiad Gwella Blynyddol blaenorol, deuthum i'r casgliad fod y Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn effeithiol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi arbed bron £30 miliwn ac mae ganddo gynlluniau i arbed £18 miliwn arall dros y pedair blynedd nesaf ar sail rhagdybiaethau presennol. Cyflawnir yr arbedion hyn drwy gyfuniad o sawl dull gweithredu gwahanol ond cyflenwol.

Mae'r Cyngor hefyd yn newid ei ddull o reoli pobl. Bydd y Strategaeth Gweithlu a fabwysiadwyd tua 18 mis yn ôl yn llywio cam nesaf y gwaith o lunio Strategaethau Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol a gaiff eu cyflwyno gerbron Aelodau yr hydref hwn. Y bwriad yw y bydd y fframwaith datblygol hwn yn diogelu ac yn gwella gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a ddarperir gan amddiffyn swyddi ar yr un pryd.

Yn sgil yr ansicrwydd sy'n parhau am ariannu gwasanaethau cyhoeddus a'r adolygiad arfaethedig o flaenoriaethau gwella'r Cyngor yn ystod yr hydref, mae'r Cyngor wrthi'n cynnal adolygiad manwl o'i Flaengynllun Ariannol; er mwyn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i helpu ei raglen newid newydd i symud y Cyngor yn ei flaen dros y pum mlynedd nesaf.

**Mae nifer o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol wedi cael sylw neu bwriedir gweithio arnynt**

Cyflwynais nifer o gynigion ar gyfer gwella yn fy Llythyr Diweddaru o ran yr Asesiad Corfforaethol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r rhain. Byddaf yn cyflwyno adroddiad manylach ar y mater hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm ar gyfer yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu yn ystod 2012-13. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen - a gaiff eu diweddaru a'u trafod â'r Cyngor yn rheolaidd - yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn bwriadu targedu adnoddau yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar brosesau hunanasesu'r Cyngor, gan gynnwys ei adolygiad o lywodraethu wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Steve Barry – Swyddfa Archwilio Cymru - Rheolwr

Samantha Spruce – Swyddfa Archwilio Cymru – Arweinydd Archwilio Perfformiad

## Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 1. Datblygu dull mwy effeithiol o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd:<br>• er mwyn sicrhau bod dinasyddion lleol yn chwarae rhan lawn a pharhaus yn y gwaith o nodi beth sy'n bwysig iddynt gan gyfrannu at flaenoriaethau'r Cyngor ar yr un pryd;<br>• er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd sut y mae eu cyfraniad wedi dylanwadu ar y blaenoriaethau a ddewiswyd gan y Cyngor;<br>• defnyddio dulliau/systemau priodol i ddefnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach ac yn effeithiol. | Mae'r Cyngor yn mynd ati mewn ffordd systematig i holi dinasyddion am y pethau sy'n bwysig iddynt drwy adolygiadau systemau ac i ddylunio gwelliannau i wasanaethau yn seiliedig ar ymatebion dinasyddion.<br>Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud gwaith ymgynghori ac ymgysylltu estynedig ac effeithiol fel rhan o'i raglenni newid haen un, gan gynnwys ymgynghori â thenantiaid cyn trosglwyddo'r stoc tai i Cartrefi NPT, ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghylch moderneiddio gofal preswyl, ymgynghori â dinasyddion ynghylch ei gynigion adfywio ac ymgynghori'n helaeth ynghylch ei Raglen Gwella Ysgolion Strategol.<br>Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu'r defnydd a wneir o uEngage (meddalwedd ymgynghori) i gefnogi dull corfforaethol mwy cyson o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a galluogi'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i rannu canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu neu gydweithredu mewnol. |
| 2. Cyflwyno system o arfarnu perfformiad staff, gan ddechrau gydag uwch reolwyr, i roi mwy o atebolrwydd, atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad a bod yn sbardun i newid diwylliant y sefydliad. | Yn ystod 2011/12 a 2012/13 mae'r Cyngor wedi bod wrthi'n datblygu system arfarnu perfformiad newydd. Mae'r system hon yn cael ei threialu ar hyn o bryd mewn gwasanaeth sy'n defnyddio dull meddylfryd systemau a gwasanaeth nad yw'n defnyddio dull meddylfryd systemau er mwyn datblygu dull sy'n addas i'r ddau amgylchedd. Ar ôl i'r treialon gael eu cwblhau, ac ar sail canlyniad yr adolygiad sy'n mynd rhagddo o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor, caiff y dull gweithredu ei gyflwyno ym mhob rhan o'r Cyngor fesul cam. Mae'n hollbwysig y caiff y system newydd hon ei hymgorffori'n gadarn yn systemau rheoli'r Cyngor. |
| 3. Adolygu amcanion gwella presennol i sicrhau eu bod:<br>• yn fforddiadwy, yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd mewn cyllidebau blynyddol;<br>• yn glir i ddinasyddion. | Mae'r Cyngor yn adolygu ei amcanion gwella ar yr un pryd ag adolygiad gan uwch reolwyr o Flaengynllun Ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau fforddiadwyedd. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud llawer o waith i fonitro'r Cytundeb Canlyniadau gan greu llinellau sylfaen a mesurau a fydd yn galluogi'r Cyngor i arddangos canlyniadau i ddinasyddion. Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012 a thu hwnt yn cynnwys manylion am sut y caiff cynnydd ei fesur a'i gofnodi. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 4. Symleiddio gwaith partneriaeth i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac wedi'i gefnogi gan drefniadau her a chraffu cadarn. | Yn ystod 2012 ystyriodd y Cyngor rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel fforwm partneriaeth cyffredinol. Cynhaliwyd cyfweliadau â phob un o 16 aelod y Bwrdd fel rhan o'r ymarfer 'beth sy'n bwysig' er mwyn deall eu barn ar effeithiolrwydd y Bwrdd a sut y gellid ei ddatblygu yn y dyfodol i'w wneud yn fwy effeithiol.<br>Yn ystod 2012, gwnaed gwaith i ddatblygu Cynllun Integredig Sengl. Fel rhan o hyn, datblygwyd fframwaith rheoli perfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau gan adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y fethodoleg rheoli perfformiad Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, dan arweiniad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda chymorth swyddogion arweiniol partneriaethau. |
| 5. Datblygu mesurau perfformiad i gefnogi'r newid i feddylfryd systemau a galluogi nodi manteision hynny. | Sefydlwyd grŵp 'gorchwyl a gorffen' o Aelodau i adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus gan ganolbwyntio ar sut y caiff gwybodaeth am berfformiad ei hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu. Mae cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr adolygiad hwn yn cael ei roi ar waith sy'n cysylltu'n glir â threfniadau rheoli perfformiad ehangach y Cyngor. |
| 6. Rhaglen Drawsnewid<br>Nodi materion sy'n dod i'r amlwg o ran gallu ac adnoddau a datblygu dull o ddatblygu ac adleoli staff.<br>Mabwysiadu dull mwy cynhwysfawr o rannu gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen Drawsnewid i godi ymwybyddiaeth o'r canlyniadau a helpu i ymgorffori newid diwylliannol o fewn y Cyngor. | Caiff y cynnydd a wneir o dan Raglen Drawsnewid y Cyngor ei adolygu'n barhaus gan Fwrdd y Rhaglen Drawsnewid.<br>Fel rhan o'r adolygiadau ac ym mhob rhan o'r rhaglen, caiff effaith newid ar weithlu'r Cyngor ei hasesu'n barhaus i sicrhau y gall y Cyngor helpu cyflogeion drwy newid.<br>Mae nifer o ymarferion dysgu gwersi wedi'u cynnal hefyd ac mae gwerthusiad annibynnol o'r dull meddylfryd systemau wedi'i gomisiynu gan ddarparwr allanol. Bydd hyn o gymorth i fapio'r gyfres nesaf o gamau sydd eu hangen i ymgorffori newid diwylliannol. |